


Cynlluniwr Ymsefydlu



Adran A – Gwybodaeth Gefndir

Ymsefydlu	5
Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu	5
Sut mae'r broses ymsefydlu'n gweithio	11
Beth i gadw llygad arno	14
Lleoliadau ymsefydlu	15
Y rolau a'r cyfrifoldebau	18
Eich hawliau a'ch iawnderau	20
Y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth	22
Nodiadau	23

Adran B – Rhestr Wirio Ymsefydlu

Tymor un	25
Nodiadau	32
Tymor dau	33
Nodiadau	36
Tymor tri	37
Cofnod cyfarfodydd	41
Cofnod arsylwadau	42
Cofnod asesiadau ymsefydlu	43
Nodiadau	44

Adran C – Awgrymiadau Da a Chysylltiadau

■ Cynllunio	45
■ Eich arferion addysgu	46
■ Asesu	48
■ Rheoli ymddygiad	49
■ Defnyddio technoleg yn ddiogel	52
■ Anghenion addysgol arbennig ac anabledau (AAAA)	54
Cysylltu â NASUWT	55
Nodiadau	56

SEMINARAU RHAD AC AM DDIM

Yn ogystal â'r pecyn cynhwysfawr o gyngor, arweiniad a gwasanaethau proffesiynol, mae NASUWT yn darparu seminarau rhad ac am ddim ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso ac sydd ar fin cychwyn eu swyddi addysgu gyntaf.

Mae'r seminarau hyn yn darparu sesiynau rhyngweithiol ac addysgiadol i:

- hysbysu athrawon newydd am eu prif hawliau a beth i'w ddisgwyl yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymgyfarwyddo;
- ddarparu syniadau ynglŷn â sut i ymdopi â'r diwrnod cyntaf yn yr ystafell ddosbarth;
- adeiladu sgiliau a gwybodaeth yn ymwneud â rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth.

Cynhelir y seminarau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ac maen nhw am ddim i athrawon newydd sy'n ymuno â NASUWT.

Argymhellwn eich bod yn bwcio lle gynted ag y gallwch am eu bod yn boblogaidd a'r rhai cyntaf i'r felin yw'r drefn.

PEIDIWCH Â CHOLLI'R CYFLE

Cofrestrwch eich diddordeb yn y seminarau nawr.

- Gwefan: www.nasuwt.org.uk/Seminars
- Ffôn: 029 2054 6080
- E-bost: conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk.

Ymunwch â NASUWT – DEWCH I'R SEMINAR

Hawdd, cyflym a diffwdan.

Ar-lein: www.nasuwt.org.uk neu ffôn: 03330 145550

Mae gofyn i athrawon newydd gymhwyso gwblhau cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus er mwyn cael eu cyflogi mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir.

Mae cyfnod ymsefydlu'n rhaglen unigol o ddatblygiad proffesiynol sy'n gofyn bod athrawon newydd gymhwyso'n cael eu hasesu ar sail y Safonau Ymsefydlu, sydd wedi'u hymgorffori yn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae cyfnod ymsefydlu'n adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau a gafwyd yn ystod Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA).

Bwriad ymsefydlu yw rhoi system strwythuredig o gefnogaeth i chi, ac mae wedi'i lunio i sicrhau eich bod yn derbyn profiad addysgu eang o safon uchel yn ystod eich blwyddyn gyntaf fel athrawon. Mae cyfnod ymsefydlu'n ffordd o sicrhau bod safonau addysgu pob athro/athrawes yn uchel. Yma yng Nghymru, mae'r gyfraith yn nodi ei bod hi'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso gael Statws Athro Cymwysedig (SAC) a chofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) cyn y gallant gael eu cyflogi fel athrawon. Ni all cyfnod ymsefydlu ddechrau oni bai bod yr athro/athrawes newydd gymhwyso wedi cofrestru gyda CGA ac yn meddu ar SAC.

Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu

Pwrpas y Cynlluniwr Ymsefydlu yw eich helpu gyda'ch cyfnod ymsefydlu mewn ffordd ymarferol.

Mae'r Cynlluniwr wedi'i rannu i gyfateb â phrif gamau ymsefydlu, gan ddangos yr hyn y dylech ei ddisgwyl ar bob cam ac awgrymiadau defnyddiol i chi eu hystyried.

Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth y byddwch ei hangen am y broses ymsefydlu, eich hawliau a'ch iawnderau, manylion y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth y bydd angen i chi eu cyrraedd, copi o'ch cofnod asesu a fydd wedi'i ddefnyddio gan eich cyflogwr i adolygu a chofnodi eich cynnydd, a sut y gallwch gael gafael ar gyngor a chefnogaeth.

I sicrhau eich bod yn gallu canfod pethau'n hawdd yn y Cynlluniwr, mae wedi'i drefnu ar sail y tri thymor. Ni fydd pob cyfnod ymsefydlu'n cydymffurfio ag amseroedd y tymor o anghenraid ond byddent yn dal i fod mewn tri cham bras a byddent yn dal i fod angen yr un broses.

Mae'r Cynlluniwr yn rhan o'r gefnogaeth eang y mae NASUWT yn ei chynnig i athrawon newydd gymhwyso er mwyn sicrhau eich bod yn cael y cychwyn gorau posibl i'ch gyrfa fydd yn llawn sialsensiau ond yn llawn gwobrwyon hefyd.

Gwefan CGA: www.ewc.wales

Cofiwch

Eich hawliau a'ch iawnderau ar dudalen 20.

Awgrymiadau Da ar dudalen 45.

Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu

Cyn dechrau:

1. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cofrestru fel athro ysgol gyda CGA.
2. Sicrhewch fod gennych wiriad cyfoes gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer rôl athro.
3. Rhewch eich tystysgrif Statws Athro Cymwysedig (SAC) i'r ysgol.
4. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llwytho eich Proffil Dechrau Gyrfa (PDG) i wefan CGA.
5. Sicrhewch fod gennych gopi o'ch disgrifiad swydd (gwelwch dudalen 8).
6. Sicrhewch fod gennych gopi o'ch amserlen.
7. Gwnewch yn siŵr bod yr amserlen yn cynnwys amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) (gwelwch dudalen 9) ac amser ymsefydlu (gwelwch dudalen 9).
8. Gwnewch yn siŵr bod eich pennaeth wedi cwblhau'r ffurflen gofrestru ar gyfer ymsefydlu ac wedi'i hanfon at CGA a hefyd wedi anfon copi i'r corff priodol. Efallai y byddwch eisiau gofyn i'ch mentor ymsefydlu wirio hyn ar eich rhan.
9. Gwnewch eich hun yn gyfarwydd â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth (gwelwch dudalen 22).

Pwyntiau i'w hystyried

- Yn eich barn chi, beth yw eich cryfderau ac ym mha feysydd ydych chi angen datblygu?
- Beth yw nodweddion athrawon newydd gymhwyso llwyddiannus?
- Beth allech chi ei wneud i sicrhau bod gennych gefnogaeth briodol?

Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu

Statws athro cymwysedig a'r cyfnod ymsefydlu

Allwch chi ond cychwyn eich cyfnod ymsefydlu os oes gennych SAC ac yr ydych wedi cofrestru gyda CGA.

Proffil Dechrau Gyrfa (PDG)

Mae'r PDG yn offeryn datblygiad proffesiynol y gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu i ganfod beth yw eich anghenion datblygiad proffesiynol. Mae'r PDG yn canolbwyntio ar dri phwynt trosglwyddo: diwedd yr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), dechrau'r cyfnod ymsefydlu, a thua diwedd y cyfnod ymsefydlu.

Bwriad y PDG yw eich helpu i ganfod cysylltiadau rhwng eich HCA, eich cyfnod ymsefydlu, a'ch datblygiad yn y dyfodol fel athro/athrawes. Nid yw'n offeryn asesu, nac yn gofnod o'ch cynnydd, nac yn dystlythyr. Ni ddylech ystyried y PDG fel ffurflen i'w llenwi, ond dylech ei ddefnyddio i'ch helpu i adolygu a chanfod yn eglur beth yw eich cyflawniadau a'ch targedau.

Dylai'r PDG eich helpu chi a'r ysgol i ddeall eich cryfderau a'ch profiadau, ond eich cyfrifoldeb chi ydyw i'w ddefnyddio wrth gynllunio a monitro eich datblygiad proffesiynol unigol yn ystod eich cyfnod ymsefydlu.

Dylech ddefnyddio'r PDG i bennu ac i ymateb i gwestiynau, i gefnogi eich myfyrdodau am eich datblygiad a'ch cynnydd ac i arwain y trafodaethau a gewch gyda'ch mentor ymsefydlu am eich cynnydd a'ch anghenion cefnogi.

Fel athro/athrawes newydd gymhwyso, disgwylir i chi gasglu tystiolaeth drwy gydol eich cyfnod ymsefydlu i ddangos eich cynnydd o ran cyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, a disgwylir i chi gofnodi hyn drwy gwblhau'r proffil ymsefydlu drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA): www.ewc.wales.

Disgrifiadau swydd

Mae'n bwysig na roddir swydd ddisgrifiad i chi sy'n rhoi gofynion afresymol arnoch chi yn ystod eich blwyddyn ymsefydlu. Mae hyn yn berthnasol os ydych yn gweithio'n rhan amser neu'n llawn amser, mewn swydd barhaol neu swydd gwaith cyflenwi tymor hir.

Er ei bod hi'n anodd weithiau penderfynu beth sy'n rhesymol a beth sy'n afresymol, fel rheol byddai athrawon newydd gymhwyso'n treulio'r cyfnod ymsefydlu mewn swydd:

- nad yw'n gofyn i athrawon newydd gymhwyso addysgu plant tu allan i'r ystod oedran a phwnc (pynciau) yr hyfforddwyd hwy ar eu cyfer;
- nad yw'n rhoi problemau disgyblaeth difrifol neu arbennig o heriol o ddydd i ddydd i'r athrawon newydd gymhwyso;

Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu

- sydd yn cynnwys addysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd;
- sydd yn cynnwys prosesau cynllunio, addysgu ac asesu tebyg i'r rhai y mae athrawon sy'n addysgu mewn swyddi parhaol yn yr ysgol yn eu dilyn; ac
- nad yw'n cynnwys cyfrifoldebau heblaw addysgu heb ddarparu paratoad a chefnogaeth briodol.

Amser ar gyfer gweithgareddau ymsefydlu

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) yn rhoi dyletswydd statudol ar benaethiaid i sicrhau nad yw amser addysgu athro/athrawes newydd gymhwyso'n fwy na 90% o'r amser addysgu cyfartalog i bob athro ac athrawes dosbarth yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ysgol roi'r amser yma i chi i bwrpas gweithgareddau ymsefydlu.

Dylid defnyddio'r amser hwn ym mha ffordd bynnag sydd fwyaf priodol ar gyfer anghenion yr unigolyn a'i ysgol. Golyga hyn bod gan yr ysgol a'r athro/athrawes newydd gymhwyso unigol rôl mewn pennu gweithgareddau ymsefydlu. Ond, mewn realiti gan yr ysgol fydd y gair olaf mewn penderfynu pa weithgareddau a wneir a phryd.

Efallai y bydd rhai ysgolion yn penderfynu neilltuo'r amser mewn blociau un diwrnod neu ddau ddiwrnod ar draws y flwyddyn, a gallai eraill ddilyn patrwm rhyddhau am hanner diwrnod bob wythnos neu dddosbarthu amser mewn cyfnodau unigol ar draws yr wythnos.

Efallai y bydd rhai anghenion hyfforddi wedi'u hateb yn well drwy weithgareddau penodol megis ymweliadau â mannau eraill sy'n para diwrnod cyfan neu'n hirach. Felly, efallai y bydd ysgol eisiau pennu sesiwn hanner diwrnod bob wythnos ar gyfer gweithgareddau o'r fath, neu 'fancio' y gweithgareddau.

Dylech sicrhau nad yw'r amser o 10% ar gyfer gweithgareddau ymsefydlu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dyletswyddau addysgu neu waith cyflenwi. Hefyd, cofiwch sicrhau eich bod yn nodi eich anghenion hyfforddiant a chefnogaeth a bod eich mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol yn gwybod am y rhain.

Amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)

Yn ogystal â'r amser ymsefydlu, dylai pob athro ac athrawes, gan gynnwys athrawon newydd gymhwyso, gael hawl statudol a chytundebol i isafswm o 10% o amser CPA gwarantedig.

Mae'r amser hwn wedi'i warantu ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd arall. Dyma amser yr athro neu'r athrawes i'w galluogi i reoli

Defnyddio'r Cynlluniwr Ymsefydlu

eu gwaith yn effeithiol a darparu addysgu a dysgu o safon uchel. Dylai'r athro/athrawes ddewis pa weithgareddau i'w gwneud yn ystod yr amser CPA.

Dylai eich amser ymsefydlu a'ch amser CPA fod wedi'i bennu'n benodol ar eich amserlen.

Polisiau ysgol

Dylech fod wedi derbyn copi o bolisiau'r ysgol, neu wybod ymhle i gael gafael arnynt. Os nad, siaradwch gyda'ch mentor ymsefydlu neu'ch gwiriwr allanol.

Bydd y polisiau'n ymwneud ag ymddygiad, ataliaeth, defnyddio TG, cydraddoldeb ac amddiffyn plant, ymysg eraill. Mae'n bwysig eich bod yn gweithio o fewn y polisiau hyn.

Sut mae'r broses ymsefydlu'n gweithio

Mae'n rhaid i bob athro/athrawes newydd gymhwyso gwblhau cyfnod ymsefydlu. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i athrawon sydd wedi cael SAC drwy ddilyn naill ai gwrs coleg neu lwybr i addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

I athrawon yng Nghymru, mae rhai achosion lle na fydd athro/athrawes yn gorfod cwblhau cyfnod ymsefydlu. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau lle'r ydych:

- wedi cael SAC cyn 1 Ebrill 2003;
- yn athro/athrawes gymwysedig o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) neu'r Swistir;
- wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Ynys Jersey, Ynys y Garn, Gibraltar neu mewn ysgol Addysg Plant y Lluoedd Arfog (SCE) yng Nghyprus neu'r Almaen;
- wedi cymhwyso tu allan i'r EEA neu'r Swistir, ac rydych hefyd wedi bodloni'r gofyniad penodol i gwblhau cyfnod o brofiad proffesiynol sy'n cymharu â chyfnod ymsefydlu yn y wlad lle'r ydych wedi cymhwyso.

Dechrau rhaglen ymsefydlu

Nid oes raid i chi ddechrau eich cyfnod ymsefydlu ar unwaith wedi i chi ennill SAC. Nid oes terfyn amser ar bryd mae'n rhaid i chi ddechrau eich cyfnod ymsefydlu. Fodd bynnag, er eich lles chi eich hun, gorau oll pa mor gynnar yr ydych yn dechrau eich cyfnod ymsefydlu wedi i chi gwblhau SAC. Gallech ei chael hi'n anoddach cael swydd os byddwch yn oedi'n hir rhwng ennill SAC a dechrau ymsefydlu. Unwaith y byddwch wedi cofrestru gyda CGA, rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth fel athro cymwysedig o un sesiwn ysgol neu fwy gyfrif tuag at eich cyfnod ymsefydlu. Nid oes hyblygrwydd yn hynny o beth ac ni chewch chi na'r ysgol ofyn am eithrio cyfnod o gyflogaeth fel athro cofrestredig rhag cyfrif tuag at eich cyfnod ymsefydlu.

Hyd y cyfnod ymsefydlu

Mae'r cyfnod ymsefydlu i athrawon newydd gymhwyso amser llawn yn parhau am un flwyddyn academiaidd, fel rheol. Mae un flwyddyn academiaidd yn cyfateb i 380 sesiwn, lle bo un sesiwn yn gyfystyr â sesiwn bore neu brynhawn. Bydd hyn yn golygu fel arfer fod eich cyfnod ymsefydlu'n parhau am dri thymor. Fodd bynnag, am fod rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth o un sesiwn ysgol neu fwy gyfrif tuag at eich cyfnod ymsefydlu, ac am nad oes unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod o amser i gwblhau'r 380 sesiwn ysgol sy'n ofynnol, gall eich cyfnod ymsefydlu bara cyn hired ag y bo'n angenrheidiol.

Sut mae'r broses ymsefydlu'n gweithio

Hyd y cyfnod ymsefydlu – gweithio'n rhan amser

Os ydych yn gweithio'n rhan amser, mae'r cyfnod ymsefydlu'n cael ei gyfrif pro rata, felly rydych yn cwblhau'r un nifer o sesiynau (h.y. 380 sesiwn) ag athro/athrawes newydd gymhwyso amser llawn. Mae hyn yn golygu, os ydych yn gweithio 50% o gytundeb amser llawn, y bydd yn cymryd dwy flynedd fel arfer i chi gwblhau eich cyfnod ymsefydlu, neu gyn hired ag sy'n angenrheidiol i chi i gwblhau'r 380 sesiwn.

Cwblhau cyfnod ymsefydlu mewn gwahanol ysgolion

Os bydd athro/athrawes newydd gymhwyso'n newid ysgol yn ystod cyfnod ymsefydlu, gall gadw yr un gwiriwr allanol os yw Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn cytuno i hynny. Dylai'r pennaeth hysbysu CGA bod yr athro/athrawes newydd gymhwyso wedi newid ysgol a bydd angen i'r ysgol newydd gwblhau ffurflen gofrestru newydd ar gyfer ymsefydlu a'i hanfon at CGA o fewn deng niwrnod gwaith ar ôl i'r athro/athrawes newydd gymhwyso ddechrau yn y swydd newydd.

Gweithio fel athrawon cyflenwi neu ar gontract tymor byr

Fel y nodwyd o'r blaen, rhaid i bob cyfnod o gyflogaeth am o leiaf un sesiwn ysgol gyfrif tuag at y cyfnod ymsefydlu. Os yw athro/athrawes newydd gymhwyso'n gweithio mewn swyddi cyflenwi tymor byr yn bennaf, eu cyfrifoldeb hwy fydd hysbysu CGA ynglŷn â phob un o'r cyfnodau cyflogaeth hyn.

Rhaid i athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud gwaith cyflenwi tymor byr gasglu 380 o sesiynau ysgol cyn y gallant gael eu hasesu ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Er eu bod yn gwneud gwaith cyflenwi tymor byr, disgwylir i'r athrawon newydd gymhwyso yma gasglu tystiolaeth o'u gwaith, a sut y mae'n eu helpu i fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, oll yn y PDP. Dylent sicrhau hefyd fod y cadarnhad a dderbynnir gan yr asiantaeth athrawon cyflenwi a ddefnyddir ar gyfer pob cyfnod addysgu wedi'i gofnodi drwy ddefnyddio'r PDP.

Disgwylir y bydd penaethiaid yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen o ddydd i ddydd ar athrawon newydd gymhwyso sy'n gwneud gwaith cyflenwi tymor byr.

Ar ôl i athro/athrawes newydd gymhwyso sy'n gwneud gwaith cyflenwi tymor byr gwblhau hanner y sesiynau ysgol sy'n ofynnol (190), bydd angen iddo/iddi gyflwyno tystiolaeth interim i'r corff priodol (y corff priodol y mae'r athro/athrawes newydd gymhwyso wedi gwneud y rhan fwyaf o'i (g)waith cyflenwi drwyddo).

Sut mae'r broses ymsefydlu'n gweithio

Mae'n ofynnol i CGA ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r athro/athrawes newydd gymhwyso a'r corff priodol pan fydd 190 o sesiynau ysgol wedi'u cwblhau.

Ar ôl cwblhau 380 o sesiynau ysgol, dylai'r athro/athrawes newydd gymhwyso gyflwyno'r proffil ymsefydlu, fel y mae wedi'i gofnodi yn y PDP, i'r gwiriwr allanol i gael ei asesu ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth fel sy'n ofynnol.

Cymryd egwyl o'ch cyfnod ymsefydlu

Gallwch gymryd egwyl yn ystod eich cyfnod ymsefydlu.

Os byddwch yn cymryd egwyl, ni allwch addysgu mewn ysgolion a gynhelir nac ysgolion arbennig nas cynhelir achos mae'n rhaid i chi barhau gyda'ch cyfnod ymsefydlu os ydych yn gweithio mewn ysgol lle mae cyfnod ymsefydlu ar gael.

Absenoldeb mamolaeth yn ystod cyfnod ymsefydlu

Os ydych yn cael egwyl yn eich cyfnod ymsefydlu sydd yn cynnwys absenoldeb mamolaeth statudol, yna mae gennych ddewis a ydych eisiau ymestyn eich cyfnod ymsefydlu ai peidio. Mae'r dewis a ydych eisiau ymestyn y cyfnod ymsefydlu ai peidio yn aros gyda chi.

Os ydych yn penderfynu eich bod eisiau ymestyn y cyfnod ymsefydlu am gyfnod eich absenoldeb mamolaeth yna mae'n rhaid i chi wneud cais i'r corff priodol sydd yn gorfod derbyn eich cais am estyniad.

Os penderfynwch nad ydych eisiau gwneud cais am estyniad i'ch cyfnod ymsefydlu yna cewch eich asesu ar yr un sail ag unrhyw athro/athrawes newydd gymhwyso arall.

Ni ddylid cynnal eich asesiad terfynol nes i chi ddychwelyd i'r gwaith ac yr ydych wedi cael cyfle i ystyried a ydych eisiau gwneud cais am estyniad ai peidio.

Os ydych eisiau gwneud cais am estyniad, gallwch wneud hynny. Os gwnewch gais am estyniad, yna mae'n rhaid caniatáu'r estyniad. Os ydych yn penderfynu nad ydych eisiau estyniad yna mae gennych hawl i gael eich asesu ar yr un sail ag unrhyw athro/athrawes newydd gymhwyso arall.

Ni ddylid gwneud yr asesiad terfynol nes eich bod wedi dychwelyd i'ch gwaith ac wedi cael cyfle i ystyried a ydych eisiau ymestyn y cyfnod ymsefydlu.

Cael dosbarth sydd â phroblemau gydag ymddygiad anodd

Fel athro/athrawes newydd gymhwysu ni ddylid gofyn i chi addysgu, o ddydd i ddydd, ddsosbarthiadau gyda phroblemau disgyblaeth difrifol neu arbennig o heriol.

Os gofynnir i chi addysgu dosbarth o'r fath o ddydd i ddydd, yna dylech godi'r mater gyda'ch mentor ymsefydlu a NASUWT. Dylai'r ysgol wneud trefniadau i chi addysgu dosbarth arall.

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn gofyn i chi ddangos eich bod yn sicrhau safon ymddygiad sy'n galluogi disgyblion i ddysgu, a'ch bod yn achub y blaen ar ymddygiad amhriodol ac yn delio ag ef yng nghyd-destun polisi ymddygiad yr ysgol. Mae hyn yn golygu y dylai'r ysgol fod yn eich cefnogi, yn ogystal â monitro ac asesu eich perfformiad, yn unol â'r rhan hon o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dylech ddisgwyl i'r ysgol roi hyfforddiant priodol i chi, mynediad at fentoriaid, cyfleoedd i arsylwi cydweithwyr profiadol yn rheoli ymddygiad anodd, a chyfleoedd i drafod strategaethau a dulliau o reoli ymddygiad.

Dylai eich rhaglen ymsefydlu hefyd gynnwys materion cyfle cyfartal a rheoli ymddygiad. Efallai y bydd angen i chi roi sylw neilltuol i ymddygiad sy'n ymwneud, er enghraifft, ag anableddeu disgybl.

Cyflawni cyfrifoldeb rheoli

Ni ddylid disgwyl i chi dderbyn na chymryd cyfrifoldebau rheoli, ac ni all eich pennaeth fynnu eich bod yn gwneud hynny. Eich blaenoriaeth chi yw cwblhau eich blwyddyn ymsefydlu'n llwyddiannus ac ni ddylid peryglu hynny drwy roi gormod o lwyth gwaith neu gyfrifoldebau i chi.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth i'ch atal rhag derbyn cyfrifoldebau rheoli os byddwch yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, mae NASUWT yn cynghori yn erbyn hyn.

Os cynigir swyddogaeth o'r fath i chi, megis cael eich gofyn i gydlynu maes astudio, dylech gysylltu â NASUWT i ofyn am gyngor.

Lleoliadau ymsefydlu

Gellir gwneud cyfnod ymsefydlu yn y canlynol:

- ysgolion a gynhelir;
- ysgolion arbennig a gynhelir;
- ysgolion arbennig nas cynhelir;
- ysgolion meithrin a gynhelir lle mae gan yr ysgol bennaeth ac mae'r ysgol yn gallu darparu cyfle boddhaol i gyflawni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth;
- ysgolion annibynnol yng Nghymru – gellir cynnal cyfnod ymsefydlu mewn ysgol annibynnol dim ond pan fydd cytundeb rhwng yr ysgol annibynnol ac awdurdod lleol sydd wedi cytuno i weithredu fel y corff priodol, a phan fydd y corff priodol yn fodlon bod yr ysgol annibynnol yn bodloni holl ofnyion y broses ymsefydlu statudol yng Nghymru;
- colegau addysg bellach, gan gynnwys colegau chweched dosbarth – gall coleg addysg bellach gynnig cyfnod ymsefydlu ar yr amod bod yr awdurdod lleol, sy'n gweithredu fel corff priodol, wedi cytuno bod y sefydliad mewn sefyllfa i ddarparu'r ystod o brofiadau a chefnogaeth sy'n ofynnol i'r athrawon newydd gymhwyso fel eu bod yn gallu cyflawni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Yn arbennig, mae'r Rheoliadau'n nodi'n eglur bod yn rhaid cynnig cyfle i'r athrawon newydd gymhwyso gael profiad personol o ymarfer o fewn ysgol, rhaid iddynt dreulio cyfnod sy'n cyfateb i ddeg diwrnod ysgol, o leiaf, yn addysgu dysgwyr o oedran ysgol gorfodol yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, a rhaid iddynt gael oddeutu 20-25 diwrnod o brofiad mewn ysgol neu leoliad ar lun ysgol. Ni ellir gofyn i athrawon newydd gymhwyso mewn colegau addysg bellach dreulio mwy na 10% o gyfanswm eu hamser addysgu'n gweithio gyda grwpiau lle mae mwyafrif y dysgwyr yn 19 oed neu'n hŷn, ac mae'n rhaid i'w mentoriaid ymsefydlu fod â SAC;
- gall ysgolion o dan fesurau arbennig gynnig cyfnod ymsefydlu os bydd Estyn yn cytuno'n ysgrifenedig fod gan yr ysgol y gallu i roi'r monitro, cefnogaeth ac asesiad angenrheidiol i chi. Mae'r corff priodol yn gyd-gyfrifol am sicrhau fod unrhyw gefnogaeth ychwanegol angenrheidiol yn ei lle.

Swyddi sy'n addas ar gyfer ymsefydlu

Er mwyn bod yn briodol ar gyfer ymsefydlu, mae angen i'r swydd alluogi athro/athrawes newydd gymhwyso i fodloni, a dangos ei fod/ei bod wedi bodloni, y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae hefyd yn bwysig fod y cyfrifoldebau addysgu a roddir i chi yn eich cyfnod ymsefydlu'n bodloni'r meini prawf a ganlyn:

- cyfateb mor agos â phosibl i'r grŵp oedran a/neu bwnc/pynciau yr hyfforddwyd chi ar eu cyfer;

Lleoliadau ymsefydlu

- aros o fewn gofynion arferol addysgu (er enghraifft, ni ddylid disgwyl i chi ymdopi, o ddydd i ddydd, gyda phroblemau disgyblaeth difrifol neu arbennig o heriol); a
- chynnwys addysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd.

Ni ddylid cynnig swydd i chi os nad yw'r amodau hyn yn gymwys o fewn y swydd honno.

Bydd rhai swyddi'n addas dim ond os rhoddir cefnogaeth ychwanegol i chi. Gallai hyn fod yn berthnasol os mai chi, fel athro/athrawes newydd gymhwyso, yw unig athro/athrawes y pwnc yn yr ysgol, neu lle mae'r ysgol o dan 'fesurau arbennig'. Os bydd angen cefnogaeth ychwanegol arnoch yna dylai'r ysgol a'r corff priodol nodi a sicrhau'r gefnogaeth hon cyn i chi ddechrau ar eich swydd. Mewn rhai achosion, gall amgylchiadau newid ar ôl i chi ddechrau ar eich cyfnod ymsefydlu; er enghraifft, gallai eich mentor ymsefydlu neu'ch gwiriwr allanol ymadael, neu efallai y bydd newidiadau eraill yn amgylchiadau'r ysgol. Mewn achosion o'r fath, mae gan y pennaeth gyfrifoldeb i sicrhau nad ydych yn dioddef anfantais oherwydd y newidiadau yn yr amgylchiadau. Mae'r pennaeth, yr ysgol gyfan, y mentor ymsefydlu, y gwiriwr allanol a'r corff priodol hefyd yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn dal i gael cyfle i fodloni, a dangos eich bod yn bodloni, y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, bod dilyniant yn y trefniadau asesu a chefnogi, a'ch bod yn derbyn unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen.

Ni ellir gwneud cyfnod ymsefydlu mewn:

- unedau cyfeirio disgyblion;
- canolfannau hyfforddi diogel;
- ysgolion sydd angen mesurau arbennig, oni bai bod arolygydd Estyn yn ardystio yn ysgrifenedig bod yr ysgol yn addas ar gyfer darparu cyfnod ymsefydlu;
- ysgolion annibynnol nad ydynt yn bodloni'r gofynion cwricwlwm penodedig neu sydd heb drefniant â chorff priodol;
- ysgolion meithrin annibynnol a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar eraill (oni bai eu bod yn ysgolion annibynnol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfnod ymsefydlu neu eu bod yn ysgol feithrin a gynhelir);
- canolfannau awyr agored a lleoliadau addysgol eraill nad ydynt wedi'u dynodi'n ysgolion;
- ysgolion arbennig cymunedol neu sefydledig a sefydlwyd mewn ysbyty.

Yr athro/athrawes newydd gymhwyso

Fel athro/athrawes newydd gymhwyso, rydych yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a'ch bod yn deall yr hyn sydd angen i chi ei wneud. Rhaid i chi chwarae rhan weithredol yn y broses ymsefydlu.

Dylai'r ysgol ddarparu'r hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol i'ch galluogi i fodloni'r safonau, ac mae angen i chi sicrhau bod hyn yn digwydd.

Nodwch a rhowch wybod i'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol am feysydd lle byddech yn hoffi cael rhagor o gefnogaeth. Dylech dynnu sylw at unrhyw faterion a phryderon gynted ag yr ydych wedi'u canfod.

Dylech hefyd sicrhau eich bod yn cael popeth y mae gennych hawl iddo.

Y mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol

Ers mis Medi 2016, mae gan y Consortia Rhanbarthol gyfrifoldeb am ddarparu gwiriwr allanol i bob athro/athrawes newydd gymhwyso. Dyma'r pedwar Consortiwm Rhanbarthol:

- **Consortiwm Canolbarth y De (CCD)** – sy'n gweithio ar ran pum awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg) www.cscjes.org.uk.
- **Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (GCA)** – sy'n gweithio ar ran pum awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen) sewales.org.uk.
- **GwE – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru** – sy'n gweithio'n gwbl ddwyieithog ar ran, ac ochr yn ochr â chwe awdurdod lleol (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam, Ynys Môn) www.gwegogledd.cymru.
- **ERW – Ein Rhanbarth ar Waith** – sy'n gynghrair o chwe awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe) www.erw.cymru.

Mae gan y corff priodol gyfrifoldeb i ddarparu mentor ymsefydlu a gwiriwr allanol i athrawon newydd gymhwyso. Bydd gwirwyr allanol yn gweithio gyda grŵp o athrawon newydd gymhwyso mewn rhanbarth penodol a bydd yn gweithio gyda'r mentor ymsefydlu a'r corff priodol i sicrhau eich bod yn derbyn mentoriaeth a goruchwyliaeth o safon uchel i'ch galluogi i ddatblygu eich ymarfer a chasglu tystiolaeth i ddangos eich bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dylai'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol fod yn ymarferwyr profiadol sydd â'r sgiliau priodol i fentora a hyfforddi athrawon newydd gymhwyso.

Y rolau a'r cyfrifoldebau

Y pennaeth a'r ysgol gyfan

Mae'n rhaid i'r pennaeth a'r ysgol gyfan sicrhau bod cefnogaeth o ddydd i ddydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso drwy gydol y cyfnod ymsefydlu yn rhan o drefniadau mentora cyffredinol yr ysgol. Mae'n ofynnol i'r pennaeth gydweithio'n agos â'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol.

Y mentor ymsefydlu

Bydd y mentor ymsefydlu'n rhoi cefnogaeth ac arweiniad o ddydd i ddydd i athrawon newydd gymhwyso drwy gydol eu cyfnod ymsefydlu. Bydd y mentor ymsefydlu'n defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar y gwaith, tro drwy'r dosbarth a gwrando ar y disgyblion, yn rhan o'r broses barhaus o gefnogi a monitro datblygiad proffesiynol yr athro/athrawes newydd gymhwyso, i sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol ac i gyflawni'r holl ofynion o ran asesu.

Y gwiriwr allanol

Mae'r gwiriwr allanol yn sicrhau ansawdd y trefniadau ymsefydlu ar ran y corff priodol, ac mae'n gweithio gyda'r mentor ymsefydlu a'r corff priodol i sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso'n derbyn mentoriaeth a goruchwyliaeth o safon uchel. Mae'n rhaid i'r gwiriwr allanol arsylwi ar yr athro/athrawes newydd gymhwyso'n addysgu, a gallent ddefnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys craffu ar y gwaith a gwrando ar y dysgwyr, yn rhan o'r broses fonitro ac asesu. Mae'r gwiriwr allanol yn gwneud yr argymhellion ac yn rhoi tystiolaeth ar sail yr asesiadau i'r corff priodol.

Y corff priodol (sef yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol)

Bydd gan y corff priodol y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau fod y broses ymsefydlu'n bodloni'r gofynion statudol ac yn defnyddio tystiolaeth ar sail asesiadau i wneud y penderfyniad terfynol am ganlyniad y cyfnod ymsefydlu. I ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir, awdurdod lleol yr ysgol sy'n gyfrifol am weithredu fel y corff priodol.

Gydag ysgolion annibynnol, fel y nodwyd o'r blaen, yr unig amser y gellir cynnal cyfnod ymsefydlu yw pan fydd cytundeb rhwng yr ysgol annibynnol ac awdurdod lleol sydd wedi cytuno i weithredu fel y corff priodol, a phan fydd y corff priodol yn fodlon bod yr ysgol annibynnol yn bodloni holl ofynion y broses ymsefydlu statudol yng Nghymru.

Yn ymarferol, gallai'r awdurdod lleol gytuno i ddirprwyo ei rôl i'r consortiwm rhanbarthol perthnasol sy'n gyfrifol am benodi, hyfforddi a threfnu'r gwirwyr allanol.

Y rolau a'r cyfrifoldebau

Os oes gennych bryder am eich ymsefydlu ac ni all yr ysgol ddatrys y mater, neu nid yw am wneud hynny, yna dylech gysylltu â'r corff priodol. Fe'ch cynghorir yn gryf i geisio cyngor gan NASUWT cyn gwneud hynny.

Eich hawliau a'ch iawnderau

Fel athro/athrawes newydd gymhwyso, bydd gennych lawer o hawliau, sy'n cael eu hamlinellu isod, a luniwyd i sicrhau eich bod yn cael y budd gorau o'ch cyfnod ymsefydlu. Mae gwybod am eich hawliau yn ogystal â'ch cyfrifoldebau, yn hollbwysig os yw'ch cyfnod ymsefydlu'n mynd i fod yn gynhyrchiol a rhoi sail gadarn i chi adeiladu eich gyrfa arni.

- 1. Yr hawl i ostyngiad o 10% mewn amser addysgu ar yr amserlen i gydnabod y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar athrawon newydd.** Gellir defnyddio'r amser hwn ar gyfer cynllunio, arsylwi athrawon eraill, mynychu cyrsiau hyfforddi neu unrhyw weithgaredd arall a gynlluniwyd i'ch helpu chi gyda'ch rhaglen ymsefydlu. Mae'r lwfans amser hwn yn ychwanegol at y lleiafswm gwarantedig o 10% o amser CPA y mae gan bob athro'r hawl iddo (gwelwch dudalen 9).
- 2. Yr hawl i beidio gorfod addysgu y tu allan i'r ystod oed neu'r pwnc y cawsoch eich hyfforddi ar eu cyfer.** Diben y cyfnod ymsefydlu yw eich galluogi i adeiladu ar y sgiliau a'r arbenigedd a gawsoch yn ystod eich Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Nid yw hyn yn bosibl os oes gofyn i chi addysgu, yn rheolaidd, grŵp oed neu bwnc y tu hwnt i gwmpas eich hyfforddiant.
- 3. Yr hawl i gael gweld a chael y profiad o weithdrefnau cynllunio athrawon eraill.** Fe luniwyd y cyfnod ymsefydlu i'ch helpu i ddod yn gyfarwydd â chyfrifoldebau beunyddiol a'r galwadau ar athrawon cymwysedig. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cael cyfle i ddefnyddio'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes yn eich ysgol wrth gynllunio ac asesu gwaith y disgyblion rydych yn eu haddysgu. Nid oes unrhyw reswm na chyfiawnhad i ysgolion gynyddu eich baich gwaith cynllunio ac asesu yn syml am eich bod yn athro/athrawes newydd gymhwyso.
- 4. Yr hawl i gael mentor ymsefydlu a gwiriwr allanol.** Dyma'r cydweithwyr y gallwch drafod eich cynnydd â nhw ac unrhyw anawsterau sydd gennych, a nhw fydd yn eich cynorthwyo i gynllunio'r gweithgareddau a'r profiadau y byddwch eu hangen er mwyn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
- 5. Yr hawl i beidio ag addysgu'n rheolaidd ddosbarthiadau neu blant unigol sydd â phroblemau disgyblaeth arbennig neu arbennig o heriol.** Mae pob athro angen amser i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer rheoli ymddygiad yn briodol. Fodd bynnag, wrth roi grwpiau o ddisgyblion i chi eu haddysgu, mae'n rhaid i'ch ysgol sicrhau nad oes disgwyl i chi addysgu, yn rheolaidd, ddisgyblion neu grwpiau o ddisgyblion sydd â phroblemau ymddygiad arbennig o anodd neu broblemau disgyblaeth.
- 6. Yr hawl i addysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd.** Un o sgiliau hanfodol athro cymwysedig yw'r gallu i sefydlu perthynas waith effeithiol

Eich hawliau a'ch iawnderau

a chynhyrchiol gyda grwpiau o ddisgyblion. Wrth addysgu'r un dosbarth(iadau) yn rheolaidd ac yn unol ag amserlen, cewch y cyfle i atgyfnerthu a datblygu'r sgiliau hanfodol hyn ymhellach.

7. **Yr hawl i dderbyn adborth a chefnogaeth gyson ar eich cynnydd.** Mae'n bwysig eich bod yn gwybod sut rydych yn dod ymlaen yn ystod eich cyfnod ymsefydlu, ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael cyfle i fyfyrion ar eich arferion eich hun, a gweld lle'r ydych yn gwneud cynnydd da a lle mae angen canolbwyntio i'ch helpu i weithio tuag at y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda'ch mentor ymsefydlu yn rhan hanfodol o sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r asesiad.
8. **Yr hawl i gael rhaglen gefnogaeth gynhwysfawr yn ystod eich cyfnod ymsefydlu.** Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn cael y budd mwyaf o'ch cyfnod ymsefydlu, mae gennych hawl i raglen o gefnogaeth strwythuredig a chynhwysfawr a luniwyd mewn cydweithrediad â'ch mentor ymsefydlu. Dylai'r rhaglen, ymhlith pethau eraill, ddangos pryd y byddwch yn cael y cyfle i gyfarfod eich mentor ymsefydlu er mwyn trafod eich cynnydd, amserlen o arsylwadau gwersi ac arweiniad ar yr ystod o weithgareddau cefnogol a allai fod ar gael i chi i'ch helpu yn eich gwaith tuag at y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
9. **Yr hawl i dderbyn rhybudd cynnar am unrhyw broblemau neu anawsterau a ganfuwyd yn eich cynnydd.** Rhaid i unrhyw farnau gan eich mentor ymsefydlu, eich rheolwr llinell, eich pennaeth neu'ch gwiriwr allanol gael eu cyfleu i chi yn rheolaidd ac yn brydlon. Wrth i'ch cyfnod ymsefydlu fynd yn ei flaen, ni ddylai fod gennych unrhyw amheuaeth am farnau'r staff allweddol hyn ar eich datblygiad a'ch cynnydd. Mae problemau neu anawsterau yn llawer mwy tebygol o gael eu datrys os ydynt yn cael eu trafod cyn gynted ag y bo modd.
10. **Yr hawl i gael eich trin fel person proffesiynol.** Fel athro neu athrawes, mae gennych ystod eang o hawliau a chyfrifoldebau proffesiynol. Un o'r pwysicaf ymysg y rhain yw'r hawl i gymryd rhan weithredol yn eich datblygiad proffesiynol eich hun. Mae hyn yr un mor bwysig yn ystod eich ymsefydlu ag ydyw yn unrhyw gyfnod arall o'ch gyrfa. Wrth gwrs, mae gennych chi gyfrifoldeb i gymryd ystyriaeth lawn o'r cyngor a roddir i chi gan gydweithwyr profiadol, ond mae'n bwysig cofio bod ymsefydlu'n rhywbeth sy'n cael ei wneud gyda chi ac nid i chi. Mae'ch barn a'ch syniadau am eich cyfnod ymsefydlu eich hun yn bwysig iawn a dylent bob amser gael eu parchu a'u hystyried o ddifrif gan y cydweithwyr sy'n eich cefnogi yn ystod eich cyfnod ymsefydlu.

Y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Gallwch ddarllen y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

[http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=en#collection-2.](http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=en#collection-2)

Nodiadau

Cofiwch

Eich hawliau a'ch iawnderau ar dudalen 20.

Awgrymiadau Da ar dudalen 45.

Mae'r canllaw canlynol wedi'i seilio ar broses ymsefydlu sydd wedi'i ymestyn dros dri thymor. Fodd bynnag, mae'r broses wedi'i seilio ar drefn lle mae athro neu athrawes newydd gymhwyso'n cwblhau 380 sesiwn a gall hynny gymryd cyn hired ag y bo'n angenrheidiol.

Tymor un

Dechrau arni:

1. Ewch i gwrdd â'r mentor ymsefydlu.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw'r trefniadau ar gyfer eich monitro a'ch asesu.
3. Gwnewch yn siŵr bod gennych gopi o'r llawlyfr staff, neu beth bynnag sy'n cyfateb iddo, a holl bolisiâu a gweithdrefnau priodol yr ysgol.

Pwyntiau i'w hystyried

- Ydych chi'n gwybod ble i fynd i gael adnoddau ar gyfer y diwrnodau addysgu cyntaf?
- Ydych chi'n gwybod at bwy i droi os oes gennych broblem sydd angen sylw ar unwaith?
- Ydych chi wedi ystyried trefnu cynllun eistedd ar gyfer eich dosbarth(iadau)?
- Ydych chi wedi datblygu strategaethau i ymdrin â rheoli ymddygiad?

Cyn hanner tymor

1. Cytunwch ar eich amserlen arsylwi gyda'r mentor ymsefydlu.
2. Trafodwch y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gyda'ch mentor ymsefydlu neu'ch gwiriwr allanol a sut i gynhyrchu eich portffolio a chasglu tystiolaeth i baratoi ar gyfer asesiad ar sail y safonau.
3. Sicrhewch fod eich mentor ymsefydlu / gwiriwr allanol wedi esbonio sut yr ydych wedi ystyried y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, ac wedi casglu tystiolaeth amdanynt, yn eich ymarfer addysgu yn yr ysgol hyd yn hyn.

Pwyntiau i'w hystyried

- Peidiwch â disgwyl perffeithrwydd eto: mae llawer o bethau'n newydd i chi ac efallai y byddwch yn teimlo eich bod yn methu defnyddio rhai o'r sgiliau neu'r dulliau roeddech yn eu defnyddio ar ddiwedd eich ymarfer addysgu diwethaf.
- Ystyriwch sut y gallwch fanteisio ar eich cryfderau. Beth sydd wedi mynd yn dda hyd yn hyn a pham?
- Cofiwch, wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen bydd pethau'n dechrau teimlo'n haws. Ceisiwch ddatblygu perthynas dda gyda'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol, yna byddwch yn teimlo fel pe baech yn symud ymlaen gyda'ch gilydd.
- Peidiwch ag ofni gofyn am gyngor gan bobl brofiadol. Mae profiad yn bwysig wrth addysgu. Mae'r athrawon newydd gymhwyso mwyaf llwyddiannus yn manteisio ar brofiadau athrawon eraill er mwyn dal i symud yn eu blaenau.
- Cofiwch fod disgyblion yn cael eu dylanwadu gan ddigwyddiadau allanol sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth. Ni fydd dosbarthiadau neu grwpiau'n ymddwyn fel y byddech yn ei ddisgwyl bob amser.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu'r cofnod cyfarfodydd a'r cofnod arsylwadau dosbarth gyda'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol at eich proffil ymsefydlu statudol ar-lein drwy ddefnyddio'r PDP.

Erbyn diwedd y tymor cyntaf

1. Dylech fod yn ymwybodol y bydd y pennaeth, y mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol yn cyfarfod i drafod eich cynnydd.
2. Bydd y gwiriwr allanol wedi arsylwi eich arferion addysgu am y tro cyntaf.
3. Byddwch yn cael eich sesiwn hyfforddi cyntaf gyda'ch gwiriwr allanol, a ddylai gynnwys adolygiad o'r dystiolaeth yr ydych wedi bod yn ei chasglu yn eich proffil ymsefydlu ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
4. Trefnwch gyfarfod gyda'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA).

Pwyntiau i'w hystyried

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu yn yr hanner tymor diwethaf? Sut ydych chi'n teimlo nawr, o'i gymharu â'r diwrnodau cyntaf hynny?
- Ydych chi wedi cael gwybodaeth am eich cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu?
- Oes unrhyw feysydd lle gallwch ddangos eich bod yn amlwg yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth?
- Beth yw'r prif feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai i'w datblygu yn y dyfodol?
- Ystyriwch sut y gallwch bennu meysydd i'w gwella.
- Ydych chi wedi nodi rhywun y gallwch droi ato i gael cyngor os oes arnoch angen help ag unrhyw rai o'r canlynol:
 - problemau ymddygiad;
 - anghenion addysgol arbennig (AAA);
 - cynllunio gwersi;
 - cyngor a chefnogaeth ynglŷn â'ch pwnc neu faes cwricwlwm penodol;
 - amodau gwaith a thâl.

Cwrdd â'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol

Bydd pob athro/athrawes newydd gymhwyso'n cael mentor ymsefydlu a gwiriwr allanol.

Er mwyn eich galluogi i gwblhau eich cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, mae'n bwysig eich bod yn cael adborth rheolaidd ynglŷn â'ch cynnydd a meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach. Dylech gael rhestr o gyfarfodydd ac amserlen arsylwi gan eich mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol.

Mae gan eich mentor ymsefydlu ddyletswydd i'ch cyfarfod yn rheolaidd er mwyn darparu cefnogaeth a rhoi adborth i chi ynglŷn â'ch perfformiad a'ch cynnydd. Os na fydd eich mentor ymsefydlu'n eich cyfarfod, dylech godi'r mater gydag ef/hi. Dylech siarad gyda'r pennaeth os nad yw'r sefyllfa hon yn cael ei datrys, gan mai cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau eich bod yn cael hyfforddiant a chefnogaeth briodol. Os na wneir newidiadau boddhaol yn dilyn hynny, dylech gysylltu â NASUWT ar unwaith i gael cyngor a chefnogaeth.

Proses asesu'r cyfnod ymsefydlu

Disgwylir i bob athro/athrawes newydd gymhwyso gynhyrchu portffolio o dystiolaeth drwy gydol y cyfnod ymsefydlu. Dylai'r proffil ymsefydlu ddangos cynnydd yr athro/athrawes newydd gymhwyso ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Rhaid i athrawon newydd gymhwyso sicrhau eu bod yn cadw eu proffil ymsefydlu yn gyfoes drwy ddefnyddio'r PDP fel bod modd i'r gwiriwr allanol wneud yr argymhelliad i'r corff priodol am ganlyniad y cyfnod ymsefydlu.

Dylai'r proffil ymsefydlu ddangos sut mae athrawon newydd gymhwyso wedi bodloni pob un o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth; dylai hyn gynnwys tystiolaeth o arsylwadau arferion addysgu'r athro/athrawes newydd gymhwyso. Mae NASUWT yn credu y dylai mentor ymsefydlu'r athro/athrawes newydd gymhwyso wneud dau arsylwad ac y dylai gwiriwr allanol yr athro/athrawes newydd gymhwyso wneud tri arsylwad yn ystod y flwyddyn ymsefydlu.

Felly, bydd y corff priodol yn seilio'r drafodaeth i benderfynu a yw athro/athrawes newydd gymhwyso wedi llwyddo yn y cyfnod ymsefydlu ar dystiolaeth ysgrifenedig a dderbynnir gan y gwiriwr allanol, sylwadau ysgrifenedig gan yr athro/athrawes newydd gymhwyso a phroffil ymsefydlu o dystiolaeth yr athro/athrawes newydd gymhwyso.

Arsylwi gwersi

Dylech chi a'ch mentor ymsefydlu gytuno ar-amcanion bob arsylwad cyn i'r arsylwi ddigwydd. Dylai pob arsylwad dynnu sylw at eich cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Os nad yw eich arsylwad cyntaf yn dilyn y llwybr hwn, dylech drefnu trafodaeth gyda'ch mentoriaid ymsefydlu. Gellir datrys y rhan fwyaf o broblemau'n anffurfiol. Fodd bynnag, os bydd problem yn parhau, efallai y bydd angen i chi drafod y mater gyda'ch pennaeth, a dylech hefyd hysbysu NASUWT.

Y berthynas â'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol

Mae'r berthynas rhyngoch chi a'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol yn un broffesiynol a dylech allu cael cefnogaeth wrthrychol a phriodol. Fodd bynnag, os bydd eich perthynas â hwy'n cael effaith ar eich gallu i ddangos eich bod yn bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, yna mae'n hanfodol fod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'r sefyllfa. Dylech drafod y mater gyda NASUWT. Efallai y byddai'n briodol i chi drafod eich pryder gyda'ch mentor ymsefydlu neu'ch gwiriwr allanol, fel y bo'n briodol, neu, os ydych yn teimlo fod problem gyda'r ddau ohonyn nhw, efallai y byddai'n fwy priodol i chi drafod eich pryder gyda'r pennaeth. Beth bynnag a wnewch, mae'n hanfodol eich bod yn gweithredu cyn gynted ag y mae unrhyw broblemau'n dod i'r amlwg. Cofiwch, efallai mai dim ond trwy gymryd y camau priodol ar y cam yma y byddwch yn gallu cwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Arsylwi athro/athrawes fwy profiadol neu ymweld â lleoliad addysgol gwahanol

Mae gan bob athro/athrawes newydd gymhwyso sy'n mynd drwy'r cyfnod ymsefydlu hawl i ymgymryd â'r math hwn o weithgaredd a defnyddio'i gyfnod ymsefydlu at y diben hwn. Os gwrthodir amser i chi, bydd angen i chi ddod â'r mater i sylw eich mentor ymsefydlu yn y lle cyntaf. Os byddwch yn dal i gael problemau, cysylltwch â NASUWT.

Peidio â rhoi adborth i athrawon newydd gymhwyso

Os nad ydych yn cael arsylwadau ag adborth, neu gyfarfodydd cynnydd rheolaidd gyda'ch mentor ymsefydlu, dylech fynegi eich pryder ar frys. I ddechrau, dylech geisio trafod eich pryder gyda'ch mentor ymsefydlu, ond os nad yw hyn yn helpu, dylech geisio cael gair â'ch pennaeth. Os na fyddwch yn gwneud cynnydd, dylech ofyn am gyngor gan NASUWT. Dylech hefyd gadw cofnod neu ddyddiadur o'r adegau pan na chafodd eich hawliau o fewn y rhaglen ymsefydlu eu cyflawni.

Dylid cyfeirio pob mater i sylw NASUWT fel bod yr undeb yn gallu ceisio ymdrin â materion yn anffurfiol, a hefyd er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'r sefyllfa rhag ofn y bydd y problemau hyn yn parhau yn y dyfodol.

Mae'n bwysig cofio y gallai sefyllfa nad oes dim yn cael ei wneud ynglŷn â hi gael effaith ddifrifol ar eich gallu i gwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus.

Anfodlonrwydd â'ch rhaglen ymsefydlu

Os oes gennych bryderon am unrhyw agwedd o'ch rhaglen ymsefydlu, e.e. nid ydych yn cael amser ar gyfer gweithgareddau ymsefydlu, nid ydych yn cael eich arsylwi, ni allwch gael cyfarfodydd gydag un neu unrhyw un o'ch mentoriaid ymsefydlu, gofynnir i chi addysgu dosbarthiadau o ddisgyblion â phroblemau ymddygiad difrifol ac nid ydych yn derbyn unrhyw gefnogaeth ychwanegol, nid yw eich mentoriaid ymsefydlu'n gwneud penderfyniadau gwrthrychol ynglŷn â'ch perfformiad, neu nid yw eich rhaglen ymsefydlu'n cynnwys monitro, asesu neu gefnogaeth mewn meysydd a nodwyd yn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, yna dylech gymryd camau ar unwaith.

Os na fyddwch yn gweithredu, mae'n bosibl y gwelwch fod problem yn gwaethygu neu y bydd yn anos rhoi sylw iddi. Cofiwch y gallai peidio â rhoi sylw i broblem effeithio yn y pen draw ar eich siawns o gwblhau eich cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus ac, o ganlyniad, ar eich gyrfa fel athro/athrawes yn y dyfodol.

Bydd yr union gamau y bydd angen i chi eu cymryd yn dibynnu ar y broblem ond, yn gyffredinol, dylech drafod unrhyw bryder sydd gennych gyda NASUWT er mwyn cael cyngor ynglŷn â sut i symud ymlaen. Gan ddibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hyn, mae'n bosibl y bydd angen i chi siarad wedyn â'ch mentor ymsefydlu, eich pennaeth neu'ch gwiriwr allanol, fel y bo'n briodol.

Os nad ydych yn gallu siarad â'ch mentor ymsefydlu, eich gwiriwr allanol neu'ch pennaeth, neu os ydych wedi siarad â hwy ac nad ydynt wedi cymryd camau priodol, yna efallai y bydd angen i chi ystyried gweithdrefnau ffurfiol mewnol yr ysgol ar gyfer mynegi pryder proffesiynol. Dylech ofyn am gyngor a chefnogaeth gan NASUWT cyn gwneud hyn.

Os yw gweithdrefnau mewnol yr ysgol wedi cael eu dilyn i gyd, neu os yw'r dewis hwn yn amhriodol, dylech ddwyn eich pryder i sylw'r corff priodol. Unwaith eto, dylech ofyn am gyngor a chefnogaeth gan NASUWT cyn gwneud hyn.

Tymor un

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi unrhyw bryder sydd gennych yn eich proffil ymsefydlu drwy ddefnyddio'r PDP. Bydd hyn yn darparu cofnod ffurfiol y gallech ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn nes ymlaen.

Cofiwch

Eich hawliau a'ch iawnderau ar dudalen 20.

Awgrymiadau Da ar dudalen 45.

Tymor dau

Yn yr hanner tymor cyntaf

1. Byddwch yn cael yr arsylwad cyntaf o'ch arferion addysgu gan eich mentor ymsefydlu.
2. Mae'r ffocws ar gyfer arsylwad dosbarth wedi cael ei gytuno.
3. Mae targedau ar gyfer yr hanner tymor wedi cael eu gosod.
4. Rydych wedi gwneud hunanadolygiad ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Pwyntiau i'w hystyried

- Sut allwch chi sicrhau eich bod yn cyrraedd y targedau a osodwyd ar ddiwedd y tymor diwethaf? Pa rwystrau sydd ar eich ffordd? Beth allwch chi ei wneud er mwyn symud y rhwystrau hyn? At bwy allwch chi droi i gael cyngor ac arweiniad?
- Wrth arsylwi athro/athrawes fwy profiadol, ystyriwch ganolbwyntio ar agweddau ar y wers, er enghraifft dechrau'r wers a sesiynau llawn, neu sut y mae'r athro/athrawes yn defnyddio technegau amrywiol i ddal sylw'r disgyblion. Beth sy'n debyg ac yn wahanol i'ch dulliau addysgu chi?

Tymor dau

Cyn diwedd yr ail dymor

1. Dylech fod yn ymwybodol y bydd y pennaeth, y mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol yn cyfarfod i drafod eich cynnydd.
2. Byddwch yn cael ail arsylwad o'ch arferion addysgu gan eich gwiriwr allanol.
3. Bydd angen i chi gael eich ail sesiwn hyfforddi gyda'ch gwiriwr allanol, gan gynnwys adolygiad o'r dystiolaeth rydych wedi dal i'w chasglu yn eich proffil ymsefydlu ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
4. Trefnwch i arsylwi athro/athrawes fwy profiadol.

Pwyntiau i'w hystyried

- Pa mor agos ydych chi at gyrraedd y targedau a osodwyd ar gyfer y tymor hwn?
- Wrth i chi gyrraedd hanner ffordd drwy eich blwyddyn ymsefydlu, ceisiwch bwysu a mesur uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r flwyddyn hyd yn hyn. Beth ydynt?
- Sut allwch chi sicrhau bod eich arsylwadau'n ystyried yr agweddau ar y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth y mae angen i chi weithio tuag atynt?
- Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod, beth am drefnu i arsylwi wers sy'n cael ei rhoi gan athro/athrawes mewn pwnc neu grŵp blwyddyn hollol wahanol i'ch un chi? Holwch a fyddai'n bosibl arsylwi addysgu mewn ysgol arall. Beth fyddai'n fwyaf defnyddiol?
- A oes cyfleoedd datblygiad proffesiynol y teimlwch eich bod eu hangen?

Gwnewch yn siŵr bod asesiadau ac arsylwadau'n bodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth sy'n ofynnol er mwyn bod yn llwyddiannus yn y cyfnod ymsefydlu

Y peth pwysicaf un yw gwneud yn siŵr nad ydych yn gadael unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych nes bydd hi'n rhy hwyr. Dylai eich mentor ymsefydlu / gwiriwr allanol fod yn gweithio gyda chi i'ch galluogi i fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, drwy drefnu rhaglen o gefnogaeth a chynghor i chi, fel y bo'n briodol.

Os oes problemau'n codi, mae'n bwysig gwybod pam. Os yw'r problemau'n gysylltiedig â rheoli ymddygiad, cofiwch na ddylai fod yn ofynnol i chi, fel athro/athrawes newydd gymhwyso, addysgu dosbarthiadau â phroblemau disgyblaeth difrifol neu arbennig o ddyrys o ddydd i ddydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod unrhyw broblemau o'r fath gyda'ch mentor ymsefydlu neu'ch gwiriwr allanol.

Ni ddylai unrhyw broblemau fod yn cael eu dwyn i'ch sylw am y tro cyntaf yn y rhan hon o'r broses. Os ydynt, bydd angen i chi siarad â NASUWT ar unwaith.

Dylech hefyd gadw nodiadau o adegau pan na chafodd eich hawliau fel athro/athrawes newydd gymhwyso eu caniatáu yng nghyswllt cyfnod ymsefydlu a pha gamau a gymerwyd gennych er mwyn ceisio sicrhau eich hawliau.

Erbyn y cam hwn, ni ddylech fod ag unrhyw broblemau yn ymwneud â strwythur eich rhaglen ymsefydlu. Os oes problemau o hyd, mae'r rhain yn rhai brys erbyn hyn a gallent effeithio ar eich gallu i fod yn llwyddiannus yn eich cyfnod ymsefydlu. Dylech gysylltu â NASUWT i gael cefnogaeth.

A yw popeth yn mynd yn ei flaen yn dda?

Os ydych yn teimlo nad yw eich cynnydd yn foddhaol neu os yw'r ysgol wedi dweud hyn wrthych, dylech gysylltu â NASUWT. Mae ymyrryd mor gynnar ag sy'n bosibl yn debygol o fod yn llawer mwy effeithiol na gadael pethau tan rywbryd arall pan fydd gan yr ysgol lai o amser i gynnig mwy o gefnogaeth i chi.

Os nad ydych yn gwneud cynnydd boddhaol, rhaid cymryd camau cynnar i helpu i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Dylai hyn ddigwydd gynted ag y bo modd a dylid ei wneud mewn ymgynghoriad â chi. Ni ddylid aros nes bydd cyfarfod asesu ffurfiol wedi'i gynnal.

Os tybir bod risg y byddwch yn methu'r cyfnod ymsefydlu, dylech gael gwybodaeth glir ynglŷn â'r pryderon a sut y byddwch yn cael cefnogaeth i fynd i'r afael â hwy. Dylai'r gwiriwr allanol fod yn rhywun a all wneud asesiad deallus a theg o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'ch achos.

Cofiwch

Eich hawliau a'ch iawnderau ar dudalen 20.

Awgrymiadau Da ar dudalen 45.

Tymor tri

Yn yr hanner tymor cyntaf

1. Bydd y mentor ymsefydlu wedi cwblhau ei ail arsylwad o'ch arferion addysgu.
2. Dylech fod wedi derbyn adborth manwl am eich arsylwad dosbarth diweddaraf.
3. Dylai hyn fod wedi arwain at adolygu a datblygu'r targedau terfynol ar gyfer hanner tymor olaf eich cyfnod ymsefydlu.
4. Dylech fod wedi gwneud hunanadolygiad ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
5. Dylech fod wedi trefnu i arsylwi athro/athrawes fwy profiadol.

Pwyntiau i'w hystyried

- A oes unrhyw feysydd o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yr ydych yn teimlo nad ydych yn eu cyrraedd? A oes unrhyw rai o ofynion y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yr ydych yn teimlo na fyddwch yn gallu eu cyrraedd o bosibl heb i chi dderbyn mwy o help? A ydych wedi nodi pwy fyddai'n gallu helpu?
- Wrth gytuno ar ffocws ar gyfer yr arsylwad dosbarth, ceisiwch sicrhau eich bod yn dangos faint rydych wedi'i ddysgu eleni. Sut allech chi wneud hyn?
- Os yw'n bosibl ac yn briodol, edrychwch ar y posibilrwydd o gymryd rhan mewn gwaith safoni asesiadau y mae athrawon eraill wedi'u gwneud. Gallai hyn olygu cyfnewid llyfrau ymarfer / papurau asesu ag athro/athrawes a fyddai'n gallu trafod y materion hyn gyda chi.
- Efallai yr hoffech ystyried arsylwi athro/athrawes sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar ac, os yw'n ymarferol, drefnu rhaglen arsylwi ar gyfer y ddau/ddwy ohonoch i hwyluso deialog proffesiynol ynglŷn â methodolegau pedagogeg. Pwy fyddai'n addas i wneud hyn gyda chi? Dylai hyn fod o fudd i'r ddau/ddwy ohonoch, felly peidiwch ag ofni gofyn!

Erbyn diwedd y tymor olaf

1. Dylech fod yn ymwybodol y bydd y pennaeth a/neu'r mentor ymsefydlu a'r gwiriwr allanol yn cyfarfod am y tro olaf i drafod eich cynnydd.
2. Bydd y gwiriwr allanol wedi cwblhau ei arsylwad olaf o'ch arferion addysgu.
3. Byddwch yn cael eich sesiwn hyfforddi olaf gyda'r gwiriwr allanol, a fydd yn cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu yn eich proffil ymsefydlu drwy ddefnyddio'r PDP i baratoi ar gyfer cael eich asesu ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.
4. Bydd y gwiriwr allanol yn gwneud yr asesiad cychwynnol o'ch proffil ymsefydlu.

Pwyntiau i'w hystyried

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cyfle i chi eich hun bwysu a mesur yr hyn rydych wedi'i gyflawni eleni.
- Trafodwch eich blaenoriaethau a'ch amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda'ch mentor ymsefydlu a'ch gwiriwr allanol.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael amserlen ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.nasuwat.org.uk/performance-management. Ceisiwch ddod yn gyfarwydd â'r trefniadau gwerthuso/rheoli perfformiad athrawon.
- Y flwyddyn ganlynol, ar ôl cwblhau eich cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, byddwch yn dilyn y trefniadau gwerthuso/rheoli perfformiad ar gyfer holl athrawon Cymru. Ceisiwch ddod yn gyfarwydd â threfniadau rheoli perfformiad athrawon. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.nasuwat.org.uk/performance-managementguidewales.

Diwedd y cyfnod ymsefydlu

Ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r gwiriwr allanol hysbysu'r corff priodol yn ysgrifenedig cyn pen deng niwrnod gwaith ynglŷn â'i argymhelliad.

Yr awdurdod lleol fydd y corff priodol. Cyn pen 20 niwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r cyfnod ymsefydlu, rhaid i'r corff priodol benderfynu a ydych wedi bod yn llwyddiannus yn eich cyfnod ymsefydlu, a ydych wedi methu eich cyfnod ymsefydlu, neu a ddylai eich cyfnod ymsefydlu gael ei ymestyn. Cyn pen tri diwrnod ar ôl gwneud ei benderfyniad, dylai'r corff priodol ysgrifennu atoch chi, y pennaeth, y corff llywodraethu, eich cyflogwr a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i ddweud beth yw ei benderfyniad.

Ymestyn y rhaglen ymsefydlu

Y corff priodol, neu'r CGA os bydd apêl, fydd yn penderfynu a ddylai cyfnod ymsefydlu athro/athrawes newydd gymhwyso gael ei ymestyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai cyfnod ymsefydlu gael ei ymestyn, er enghraifft amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, oedd y tu hwnt i reolaeth un neu ragor o'r partiön sy'n ymwneud â'r broses ymsefydlu, neu os nad oes digon o dystiolaeth i fod yn sail i benderfyniad bod y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth wedi cael eu bodloni.

Efallai hefyd y bydd modd ymestyn cyfnod ymsefydlu yn ystod y broses ei hun os bydd athro/athrawes newydd gymhwyso wedi bod yn absennol o'i gwaith am 30 diwrnod ysgol neu fwy yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Fel arfer, dylai'r cyfnod ymsefydlu gael ei ymestyn i gyfateb â nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd.

Fodd bynnag, dylai'r athro/athrawes newydd gymhwyso a'r corff priodol drafod amgylchiadau'r unigolyn cyn penderfynu am faint y bydd y cyfnod ymsefydlu'n cael ei ymestyn.

Methu cyfnod ymsefydlu

Os byddwch yn methu eich cyfnod ymsefydlu, ni fyddwch yn cael gweithio fel athro/athrawes gymwysedig mewn ysgol yn y sector a gynhelir neu mewn ysgolion arbennig nas cynhelir. Bydd yn rhaid i chi gael eich diswyddo, oni bai bod apêl yn yr arfaeth, a bydd eich enw'n cael ei dynnu oddi ar gofrestr CGA.

Os byddwch yn apelio, mae'n bosibl y bydd eich cyflogwr yn eich diswyddo beth bynnag, ond mae'n rhaid iddynt barhau i'ch cyflogi hyd nes clywir canlyniad yr apêl. Fodd bynnag, byddwch yn cael llai o ddyletswyddau.

Os bydd rhywun yn dweud wrthy ch y gallech fethu eich cyfnod ymsefydlu, cysylltwch â NASUWT ar unwaith, os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod. Peidiwch ag aros nes gwneir y penderfyniadau cyn cysylltu. Os byddwch yn aros, efallai y bydd hi'n rhy hwyr i chi gywiro'r sefyllfa.

Cyngor y Gweithlu Addysg – Apelio

Os bydd athro/athrawes newydd gymhwyso'n methu cyfnod ymsefydlu neu os bydd y cyfnod ymsefydlu'n cael ei ymestyn gan y corff priodol, rhaid i'r corff priodol hysbysu'r athro/athrawes newydd gymhwyso ynglŷn â'i hawl i apelio ac egluro beth yw'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.

Rhaid i'r athro/athrawes newydd gymhwyso gyflwyno apeliadau i CGA, sef y corff apêl, cyn pen 20 niwrnod gwaith, gan ddechrau o'r dyddiad y derbyniodd yr athro/athrawes newydd gymhwyso yr hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad y corff priodol.

Bydd NASUWT yn darparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn â chyflwyno a gwneud apêl. Rydym yn cynghori athrawon newydd gymhwyso'n gryf i gysylltu â NASUWT i ofyn am gefnogaeth cyn cyflwyno a bwrw ymlaen ag apêl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.nasuwat.org.uk/NewTeachers.

Cofnod cyfarfodydd

Cofnodwch ddyddiadau, amseroedd a phwrpas cyfarfodydd sy'n ymwneud â'ch cyfnod ymsefydlu, a gyda phwy oedd y cyfarfodydd.

Dyddiad	Amser	Gyda phwy	Pwrpas

Cofnod arsylwadau

Dyddiad	Amser	Grŵp/ Dosbarth	Arsylwr	Barn yr arsylwr	Eich barn chi

Cofnod asesiadau ymsefydlu

Gall athrawon newydd gymhwyso ddod o hyd i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a chanllawiau NASUWT eraill ar arsylwi ac asesu ar: www.nasuwt.org.uk/site-wide-search.html.

Nodiadau

Awgrymiadau da – Cynllunio

Mae cynllunio'n gyfrifoldeb proffesiynol hanfodol i bob athro ac athrawes.

Mae angen i bob athro ac athrawes gynllunio ar gyfer anghenion dysgu disgyblion drwy ganfod pa sgiliau allweddol, gwybodaeth a dealltwriaeth y mae angen i'w disgyblion eu datblygu.

Fodd bynnag, nid yw treulio cyfnodau gormodol o amser yn ysgrifennu cynlluniau hir, manwl yn mynd i arwain at well canlyniadau dysgu i ddisgyblion a gallai gael effaith niweidiol ar lwyth gwaith athrawon.

Mae'n bwysig cydnabod nad oes dull cenedlaethol swyddogol o gynllunio. Yn nhermau gofynion arolwg, mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn (ar gael o www.estyn.gov.uk) yn ei gwneud hi'n glir y bydd arolygwyr yn asesu cyflawniad disgyblion ac i ba raddau y maent yn mwynhau eu dysgu. Nid yw arolygwyr yn archwilio cynllunio ac nid yw Estyn yn nodi ym mha ffordd y dylid cynllunio neu gofnodi cynllunio.

I sicrhau bod eich cynllunio'n effeithiol ac nad yw'n ychwanegu gormod o faich dianghenraid ar eich llwyth gwaith, dylech:

- ddefnyddio trefniadau cynllunio cyfredol eich ysgol ar gyfer eich cynllunio tymor hir, canolog a byr am nad oes raid i chi ddefnyddio templedi cynllunio wedi'u llunio'n benodol yn syml am eich bod yn athro/athrawes newydd gymhwyso;
- lle bo'n bosib, osgowch gychwyn eich cynllunio o'r cychwyn drwy ddefnyddio'r cynlluniau sy'n bodoli'n barod y gallwch eu haddasu i gyflawni anghenion y dosbarth neu'r grŵp a addysgwch;
- cydnabod bod eich cynlluniau ar gyfer eich pwrpasau eich hun yn y lle cyntaf ac ar gyfer cefnogi deialog a thrafodaeth gyda phobl broffesiynol eraill;
- sicrhau bod yr amser a dreuliwch yn cynllunio wedi'i ganolbwyntio ar weithgareddau cynllunio a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar ddysgu ac addysgu;
- lle bo'n bosibl, ceisiwch gynllunio mewn cydweithrediad â chydweithwyr eraill fel eich bod yn gallu rhannu arbenigedd proffesiynol a gostwng unrhyw ddyblygu ymdrech dianghenraid;
- gwneud defnydd effeithiol o TGCh er mwyn rhannu cynlluniau ac addasu defnyddiau sy'n bodoli'n barod.

Mae gan y mwyafrif o ysgolion bolisiau ar gynllunio gwersi. Os byddwch yn teimlo bod y gofynion cynllunio yn eich ysgol yn ormodol dylech geisio cyngor gan eich mentor ymsefydlu a gan NASUWT.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.nasuwt.org.uk.

Pam mae arsylwi'n bwysig

Mae arsylwi arferion addysgu athrawon newydd gymhwyso yn ystod y cyfnod ymsefydlu, os bydd eich cyflogwr yn gwneud y rhain yn gywir, yn gallu bod o gymorth effeithiol gyda'u datblygiad a'u cynnydd tuag at fodloni'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Cyn yr arsylwad

Dylai amcanion pob arsylwad gael eu cytuno rhwng yr athro/athrawes newydd a'r mentor ymsefydlu / gwiriwr allanol cyn i'r arsylwi ddigwydd.

Dylai pob arsylwad dynnu sylw at eich cryfderau a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach ar sail y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Os nad yw eich arsylwad cyntaf yn dilyn y llwybr hwn, dylech drefnu trafodaeth gyda'ch mentor ymsefydlu. Gellir datrys y rhan fwyaf o broblemau'n anffurfiol. Fodd bynnag, os bydd problem yn parhau, efallai y byddwch eisiau trafod y mater gyda'ch pennaeth. Dylech hefyd gadw nodiadau o unrhyw drafodaethau.

Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod hawl gan y mentor ymsefydlu neu unigolyn priodol arall sydd â statws athro cymwysedig (SAC) arsylwi'r athrawon newydd.

Os bydd rhywun gwahanol i'r arfer yn gwneud yr arsylwad, dylai'r athro/athrawes newydd gymhwyso a'r mentor ymsefydlu drafod hyn cyn yr arsylwad, a dylent gytuno ar egwyddorion y rhesymau pam fod unigolyn gwahanol yn gwneud yr arsylwad.

Os oes gennych bryderon ynglŷn â nifer y bobl sy'n arsylwi eich arferion addysgu, ac os na ellir datrys y pryderon hyn o fewn yr ysgol, dylech gysylltu â NASUWT gynted ag y bo modd.

Ar ôl yr arsylwad

Er nad oes unrhyw fanyleb ynglŷn â pha mor aml y dylid gwneud arsylwadau, mae NASUWT yn awgrymu y byddai tri arsylwad bob tymor yn ddigonol fel arfer yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Fodd bynnag, os bydd athrawon newydd gymhwyso'n credu eu bod yn cael eu harsylwi'n ormodol, dylent siarad â'u mentor ymsefydlu yn y lle cyntaf.

Awgrymiadau da – Eich arferion addysgu

Os bydd y broblem yn parhau, efallai y byddwch eisiau trafod y mater gyda'r pennaeth.

Dan yr amgylchiadau yma, dylai athrawon newydd gymhwyso roi'r wybodaeth ddiweddaraf i NASUWT bob amser fel bod yr Undeb yn gallu rhoi cyngor a chymorth.

Arsylwi arferion addysgu

Mae NASUWT yn dweud yn glir bod arsylwi athrawon newydd gymhwyso yn ormodol yn wrthgynhyrchiol ac na fydd hynny'n helpu'r broses ddatblygiadol y mae'r cyfnod ymsefydlu wedi'i lunio i'w helpu.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod arsylwi arferion addysgu'n fuddiol i ddatblygiad athrawon newydd gymhwyso, dylid cytuno ar amcanion unrhyw arsylwad o flaen llaw a dylai pob arsylwad gael ei ddilyn gan drafodaeth ac adborth i ddadansoddi'r wers a arsylwyd.

Dylai'r drafodaeth a'r adborth dilynol, sy'n lleol ac yn ysgrifenedig, fod yn gadarnhaol ac adeiladol a dylai dynnu sylw at yr hyn y mae athrawon newydd yn ei wneud yn dda, yn ogystal â'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Dylech gofnodi cofnod o bob arsylwad yn eich proffil ymsefydlu drwy ddefnyddio'r PDP.

www.nasuwt.org.uk/newteachers

Awgrymiadau da – Asesu

Mae asesiad parhaus o waith y disgyblion yn nodwedd ganolog o arferion addysgu effeithiol. Mae arferion asesu effeithiol a phriodol yn cynnwys rhoi'r gallu i athrawon wneud defnydd priodol o'u barn broffesiynol i siapio dulliau o drin cynnwys y cwricwlwm ac asesu i gyflawni anghenion dysgu.

Fodd bynnag, mae nifer o'r trefniadau lefel ysgol i wneud asesiad ffurfiannol neu asesu ar gyfer dysgu yn rhy fiwrocratig ac yn wastraff amser. Mae'r asesiad a wneir ar y sail yma'n gyfyngedig o ran ei ddefnyddioldeb i rieni neu ddisgyblion wrth iddynt bennu a gweithio tuag at nodau dysgu'r dyfodol, ac mae'n ychwanegu baich at lwyth gwaith athrawon a phenaethiaid ac yn tynnu eu sylw oddi wrth y gweithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi cynnydd a chyflawniad y disgyblion.

Mae nifer o egwyddorion pwysig ddylai fod wedi'u hadlewyrchu ymhob ffurf o asesiad yn yr ysgol.

Ceisiwch wneud eich arferion asesu mor effeithiol ag sy'n bosibl drwy:

- ddod yn gyfarwydd â'r disgwyliadau yn eich ysgol ynglŷn ag asesiad drwy drafodaeth gyda'ch mentor ymsefydlu a thrwy ddarllen polisi asesu'r ysgol;
- cydnabod nad yw'n bosibl nac yn fanteisiol cofnodi pob agwedd o gynnydd pob disgybl yr ydych yn gyfrifol amdanynt;
- cyn belled ag y bo'n bosibl, ceisiwch ganolbwyntio eich gweithgareddau asesu ar feysydd wedi'u targedu o ddysgu'r disgyblion yn hytrach na cheisio asesu holl agweddau cynnydd a chyflawniad ar yr un pryd;
- defnyddio'r gwaith sydd yng ngwerslyfrau'r disgyblion yn barod neu yn nodiadau cyfraniadau llafar y disgyblion yn y dosbarth, heb ddefnyddio gweithgareddau asesu penodol neu bortffolios o waith y disgyblion; ac
- ymgysylltu mewn deialog broffesiynol gyda chydweithwyr ynglŷn â dulliau o gynllunio a ffyrdd o wneud eich cynllunio'n fwy effeithiol a syml.

Efallai, fodd bynnag, bod y polisi asesu yn eich ysgol yn aneffeithiol ac yn creu baich gormodol i chi a'ch cydweithwyr. Dan yr amgylchiadau yma, dylech geisio cyngor gan NASUWT ynglŷn â ffyrdd o ymdrin â'r materion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.nasuwt.org.uk.

Rheoli eich dosbarth

Mae pob athro ac athrawes sy'n newydd i'r proffesiwn yn poeni am gamymddygiad rhai o'r plant a phobl ifainc mewn ysgolion. Gallai athrawon boeni bod rhai o'r disgyblion a addysgant allan o reolaeth ac na fydd ganddynt y gallu i'w gorfodi i ymddwyn. Mae rhai rheolau syml a fydd yn helpu i gynnal disgyblaeth a threfn yn y dosbarth fel arfer.

1. Gosodwch ffiniau

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn mwynhau trefn a disgyblaeth dda; maent yn gwybod ymhle maen nhw'n sefyll ac yn deall beth mae pobl yn ei ddisgwyl ganddynt. O'r cychwyn un mae angen i chi ddweud wrthynt beth rydych yn ei ddisgwyl ganddynt a hefyd yr hyn y gallent ei ddisgwyl gennych chi. Pan fyddwch yn eu cyfarfod gyntaf, treuliwch ychydig o amser yn trafod eich polisi ymddygiad personol. Datblygwch God Ymarfer pum pwynt syml yr ydych wedi'i negodi gyda nhw. Byddent yn llawer mwy tebygol o ddilyn rhywbeth y maent wedi helpu i'w ddatblygu na rhywbeth sydd wedi'i orfodi arnynt. Mae hyn yn gweithio i bob oedran – hyd at, ac yn cynnwys, disgyblion Blwyddyn 11.

2. Defnyddiwch iaith bositif

Dywedwch wrth y disgyblion beth rydych eisiau iddynt ei wneud, nid yr hyn nad ydych eisiau iddynt ei wneud! Y neges yw 'Dyma'r ffordd rydym yn ymddwyn yn fy nosbarth i', nid 'dyma'r pethau ddylech chi ddim eu gwneud'. Mae rhestr hir o'r pethau na ddylai disgyblion eu gwneud yn beth negyddol ac yn annog pobl ifainc i dorri'r rheolau. Y neges maen nhw'n ei derbyn yw bod yr athrawon yn meddwl fwy am ymddygiad gwael nag ymddygiad priodol. Mae defnyddio'r gair 'diolch!' yn dilyn cyfarwyddiadau yn llawer mwy pwerus na 'plis'.

3. Anogwch y disgyblion pan fyddent yn gwneud camgymeriad

Mae pawb yn gwneud camgymeriadau – dyma sut rydym yn dysgu. Mae pobl ifainc yn teimlo cywilydd os ydynt yn cael yr ateb yn anghywir; maen nhw'n meddwl bod yn rhaid iddynt fod yn berffaith drwy'r amser. Mae ofn methu wrth ddysgu'n ffactor sy'n annog camymddwyn yn gryf iawn (Rudolf Dreikurs). Gadewch i'ch disgyblion ddysgu gyda'i gilydd a chanfod atebion i broblemau gyda'i gilydd. Mae'n well pan fydd dau berson yn hytrach nag un yn cael ateb yn anghywir, neu'n gywir hyd yn oed.

4. Byddwch yn gyson drwy’r amser

Dywedwch wrth eich dosbarth(iadau) beth fydd eich gwobr a’ch cosb. Cadwch eich cosbau’n bethau y gall pawb eu gwneud ac yn gyfatebol â’r rheolau a gafodd eu torri. Mae plant a phobl ifainc yn adnabod tegwch a byddai’n well ganddynt gael eu trin am eu hymddygiad fel unigolyn, nag fel aelod o grŵp anodd. Gwobrwywch ymddygiad derbynol yn rheolaidd – mae gwên, stamp ar eu gwaith, gair o anogaeth, efallai’n arwain at gerdyn post at y rhieni, yn cydnabod ymdrechion disgyblion i fod yn ddysgwyr da ac yn eu helpu i wybod pa mor dda ydyn nhw.

5. Dysgwch fod yn hyderus

Mae’n rhaid i iaith eich corff a’ch iaith lafar ddangos eich bod yn hyderus, ac nid yn wan nag yn ymosodol. Dydy athrawon sarcastig ddim yn creu’r dysgwyr gorau; athrawon caredig ond cadarn sy’n cael y dysgwyr da. Mae gwahaniaeth mawr rhwng mwynhau sgwrs ddoniol gyda disgyblion yr ydych yn eu nabod yn dda a bychanu disgyblion. Dydy bychanu byth yn dderbynol. Defnyddiwch dinc cadarn, clir i’ch llais yn hytrach na ‘chodi’ eich llais, oherwydd gall hynny ddatblygu’n gweiddi neu, ar ei waethaf, yn sgrechian.

6. Gosodwch drefn reolaidd

Pan fydd disgyblion yn gwybod ac yn deall beth fydd yn digwydd mewn amrywiaeth o wahanol amgylchiadau, maent yn teimlo’n ddigon diogel i ddysgu ac yn rhydd i fwrw ymlaen gyda’r broses o ddysgu. Mae athrawon da’n sefydlu trefn sy’n caniatáu cysondeb parhaol ond nid arferion rheolaidd sy’n mynd yn ddiflas – gall gwersi fod yn gyffrous ond fod â chyfres o reolau sy’n hysbys i bawb ar yr un pryd.

7. Ymdriniwch â dicter

Mae’n amhosibl delio â pherson blin iawn – yn oedolyn neu’n blentyn – pan fyddent wedi colli eu tymer. Y peth gorau i’w wneud yw aros yn dawel a gadael i’r person wybod eich bod yn mynd i’w helpu nhw i ddatrys y broblem pan fydden nhw’n barod. Ceisiwch gadw rheolaeth ar eich emosïynau eich hun sut bynnag y mae’r person arall yn teimlo. Os gallwch, diolchwch i weddill y grŵp am fwrw ymlaen gyda’u gwaith fel nad ydyn nhw’n cael eu tynnu i mewn i sefyllfa anodd, ond sicrhewch eich bod yn cadw rheolaeth ar y sefyllfa.

8. Defnyddiwch hiwmor

Cofiwch eich synnwyr digrifwch a chydabyddwch y synnwyr hwn yn eich disgyblion. Mae'n anodd bod yn flin neu'n ymosodol gyda rhywun sy'n gwneud i chi chwerthin.

9. Mae eich ystafell ddosbarth fel eich cartref

Pan fyddwch yn croesawu pobl i'ch cartref, byddwch yn eu croesawu ac yn eu helpu i ddeall 'rheolau' eich teulu heb i chi feddwl ddwywaith am y peth. Gwnewch yr un peth yn eich ystafell ddosbarth. Cadwch y lle'n daclus ond caniatewch 'annibendod' dysgu. Cofiwch y gwahaniaeth rhwng sŵn cyffrous pobl yn dysgu a sgwrsio sy'n niwsans. Peidiwch â gwneud rheolau dim ond er mwyn cael rheolau.

10. Byddwch yn hapus

Does dim yn fwy gwobrwyol na addysgu rhai o'n plant mwyaf trwblus ac anhapus, yn enwedig pan fyddwn wedi torri drwy fur eu hymddygiad drwg. Yr ateb yw rhoi digon o amser iddynt a chadw'n bositif drwy gofio eich bod yn mynd i lwyddo dim ond i chi ddyfalbarhau.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.nasuwt.org.uk.

Awgrymiadau da – Defnyddio technoleg yn ddiogel

Mae technoleg yn datblygu'n gyflym ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r gwaith addysgu. O'i defnyddio'n briodol gall gyfoethogi cyfleoedd dysgu a gwella'r amgylchedd gwaith i athrawon.




Gyda'r cyfleoedd daw heriau hefyd a dyma pam mae NASUWT wedi cynhyrchu canllaw i aelodau i'ch helpu i ddiogelu eich preifatrwydd ar-lein ac i osgoi peryglon.

Mae canllaw i ddiogelu eich preifatrwydd ar-lein a manylion llawn y gwaith ymchwil a wnaed gan NASUWT i'w cael ar www.nasuwt.org.uk/emails.

Defnyddio technoleg mewn rôl broffesiynol

Adnoddau addysgu

Mae nifer gynyddol o fannau i ganfod adnoddau addysgu ar-lein, a gallwch ddefnyddio llawer ohonynt yn rhad ac am ddim. Mae esiamplau'n cynnwys:

- NASUWT  #NQT2018
-  NASUWT Chwilio am grŵp NASUWT Cymru ar Facebook
- Twitter  #Edchat

Defnydd personol

Mae gennych hawl i gael bywyd personol a phresenoldeb ar-lein personol. Ond, mae rhai pethau ymarferol y dylai athrawon eu hystyried:

- Gwiriwch y gosodiadau preifatrwydd ac adolygwch eich cynnwys. A yw'n datgelu unrhyw beth na fydech eisiau i gydweithwyr, rhieni neu ddisgyblion ei weld?
- Osgowch ryngweithio gyda disgyblion a rhieni ar-lein heblaw eich bod yn defnyddio cyfrif yr ysgol i'r pwrpas a fwriadwyd.
- Gallwch chwilio ar-lein am eich enw eich hun ynghyd â nifer o eiriau allweddol ac adolygu'r canlyniadau.
- Cadwch ddefnydd personol a defnydd proffesiynol ar wahân, gan gynnwys eich defnydd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhifau ffôn a chyfrifon e-bost.

Awgrymiadau da

- Darllenwch bolisi perthnasol eich ysgol ac arweiniad CGA: *Canllaw ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.*

Awgrymiadau da – Defnyddio technoleg yn ddiogel

- Cadwch y ffin rhwng eich gwaith a'ch bywyd personol. Ni ddylai'r ysgol ddisgwyl i athrawon ddarllen neu ateb negeseuon e-bost yn ystod amser addysgu, gyda'r nos, ar benwythnos, yn ystod y gwyliau na phan maent ar absenoldeb salwch.
- Peidiwch â defnyddio'r cyfrifiaduron, y camerâu a'r dyfeisiau eraill a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer unrhyw beth heblaw gwaith yn ymwneud â'r ysgol.
- Dylai ysgolion fod â phrotocol clir ar gyfer defnyddio negeseuon e-bost a chyfrif e-bost yr ysgol. Holwch a oes gan eich ysgol brotocol o'r fath. Cofiwch, efallai bod cyfrifon a negeseuon e-bost yr ysgol yn cael eu monitro.
- Peidiwch â chysylltu dyfeisiau personol, megis ffonau symudol, at rwydweithiau ysgolion.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio technoleg yn ddiogel, ewch i: www.nasuwat.org.uk/abuseoftechnology

Awgrymiadau da – Anghenion addysgol arbennig ac anableddau

I gwblhau eich cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus, mae angen i chi allu dangos eich bod yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion yr ydych yn eu haddysgu sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA).

Mewn ymgynghoriad â'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA), dylech:

- gyfrannu at baratoi, gweithredu, monitro ac adolygu Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt;
- fod yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer AAAA;
- ddeall sut y trefnir cefnogaeth i ddisgyblion ag AAAA a sut y caiff ei darparu yn eich ysgol;
- siarad â'r CAAA ynglŷn â'r ffordd mae anghenion arbennig yn gweithio o fewn yr ysgol. Dylai hyn gynnwys gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer AAAA, gan gynnwys paratoi a gweithredu CAU neu gynlluniau cysylltiedig, rôl a chyfraniad aelodau eraill o staff o fewn yr ysgol (cynorthwywyr addysgu a chymorth dysgu), a'r cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n berthnasol i AAAA a sut y gellir cael gafael ar y rhain;
- sicrhau eich bod yn ymdrin â materion cydraddoldeb drwy eich gwaith yn cefnogi disgyblion ag AAAA;
- bod yn gyfarwydd â deddfwriaeth anabledd a deall y gwahaniaeth rhwng anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau. Er enghraifft, nid oes AAA ar yr holl ddisgyblion sydd ag anabledd. Yn yr un modd, nid oes anabledd ar bob disgybl sydd ag AAA. Dylech sicrhau eich bod yn gwahaniaethu rhwng ymddygiad sydd wedi'i gysylltu ag anabledd disgybl ac ymddygiad cyffredinol gwael.

Mae NASUWT wedi darparu cyngor a chyfarwyddyd i aelodau am yr holl faterion hyn, sydd ar gael ar:
www.nasuwat.org.uk/specialneeds.

Cyfranogi

Mae ein haelodau'n allweddol i lwyddiant NASUWT. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau ein bod yn cynrychioli pob un o'n haelodau yw i chi roi eich mewnbwn i'r undeb. Gallwch wneud hyn drwy fynd i gyfarfodydd a digwyddiadau neu drwy ymateb i arolygon.

Hoffech chi gymryd mwy o ran yn NASUWT?

Gallwch ganfod rhagor ar www.nasuwt.org.uk/getactive



twitter.com/nasuwt.



Gallwch hefyd ddilyn Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT ar twitter.com/Chris_K_NASUWT.



www.facebook.com/nasuwt.

Y Pencadlys Cenedlaethol a'r Canolfannau Rhanbarthol

Mae Pencadlys NASUWT yn Birmingham.

Mae gan NASUWT Ganolfannau Cenedlaethol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Canolfan NASUWT Cymru

Clos Greenwood

Parc Busnes Porth Caerdydd

Caerdydd CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

Nodiadau

Nodiadau

Nodiadau

